Cyf. L | Hydref, 1950 | Rhif 10

YR YMOFYNNYDD

Cylchgrawn Misol Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Cynnwys

Nodiadau'r Golygydd.
Antur Fawr ydyw fy nysgu Cymraeg.
Atgofion Sion Ifan Sion.
Swyddogaeth Gwraig mewn bywyd Cyhoeddus.
Clawr yr Ymofynnydd.
Cyflwyno Cyfeillion.
Maes Llafur yr Ysgolion Sul 1951.
Priodasau.
Marwgof.
Newyddion yr Enwad.
Y Cwpwrth Llyfrau.
Gohebiaeth.

YR YMOFYNNYDD

Pris 6c. y mis; drwy y Post, 7s. oc. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—

Y Parch. D. JACOB DAVIES, B.A., Penrallt, 2, Tudor Terrace, Aberdâr.

Nodion a Marwgofion i gyrraedd y Golygydd erbyn y 15eg o'r mis.

Pwyllgor Ymgynghori—PRIFATHRO J. D. JONES, B.A., B.D.; PARCHN. S. E. BOWEN; D. EVANS; E. G. EVANS, B.A.; E. O. JENKINS; J. ISLAN JONES, M.A.; SIMON JONES, B.A.; A. J. MARTIN, B.A.; ISLWYN PRITCHARD, B.A.; J. MARLES THOMAS, M.A.; LEWIS WILLIAMS; T. O. WILLIAMS, M.A.; a'r DR. D. J. DAVIES, Mr. W. S. JONES, M.A., M.Sc., a Mr. D. JONES.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwyr—

J. D. Lewis a'i Feibion, Swyddfa'r "Ymofynnydd", Llandysul

A GOLDEN TREASURY OF THE BIBLE (and Apocrypha).
Selected and edited by MORTIMER ROWE, B.A., D.D. The best of the Bible and Apocrypha, in attractive and readable form. 9/6, by post, 10/3; leather with gilt edges, 18/-, by post 18/9.

SHALL WE FOLLOW KARL BARTH.
By SIDNEY SPENCER, B.A. 1/6, by post 1/8.

THE STORY AND SIGNIFICANCE OF THE UNITARIAN MOVEMENT.
By W. G. TARRANT, B.A. 1/6, by post 1/8.

UNITARIAN FAITH IN UNITARIAN HYMNS.
1/-, by post 1/2.

WE BELIEVE IN series.
Edited by G. STEPHENS SPINKS, M.A., PH.D., the set of six titles, 1/6 by post 1/8.

Send for catalogue and lists of other series—

THE LINDSEY PRESS,
14, Gordon Square, London, W.C.1.

Yr Ymofynnydd

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. D. JACOB DAVIES, B.A.

Cyfrol l. HYDREF, 1950. Rhif 10.

Nodiadau'r Golygydd.

Y Troad Allan.

Na, nid y troad allan o'r Llwyn sydd mewn golwg y tro hwn. Rhywbeth i'w gofio yw hwnnw bellach, eithr mae'r Troad Allan hwn ar waith yn awr, a hynny o fewn deng milltir i'r Llwyn lle bu Gwilym Marles a'i werin ddewr yn ymladd mor dda. Gall ddod yn nes na deng milltir. Yn rhifyn Medi 20 o'r *Faner* dyry Mr. Gwynfor Evans, M.A., Ll.B. hanes ei ymweliad â Choedwig Brechfa ac y mae'r erthygl yma yn un o'r pethau tristaf a ddarllenais erioed. Gwn y maddeua'r *Faner* a Mr. Evans imi am ddyfyny rhannau helaeth ohoni. Gobeithiaf y bydd profi o ymdrech y *Faner* i amddiffyn ein broydd a'n gwlad yn foddion i rywrai ail gydio yn yr hen bapur yma a oedd mor annwyl i'n tadau a ymladdai yn erbyn gormes y dyddiau gynt. Ymunwn â'r cwmni ar hanner y daith.

"Dilyn y llwybr drwy'r coed wedyn am y Grondre. Bymtheng mlynedd yn ôl, meddai Mr. Lloyd (gŵr o'r lle) wrthym yr oedd caeau gwair rhagorol bob ochr i'r llwybr a gerddem . . . Yn uwch i fyny buasai caeau a dyfai ŷd hyd at eu plannu â choed. Cyrraedd clos y fferm, a'i gael ar lecyn hardd, yn wynebu'r De a chymoedd hirion o'i flaen. Byddai'r rhan fwyaf o ffermwyr Cymru yn falch o'r fath dŷ helaeth a chryf â'r un a welsom . . . Er pan drowyd Mr. Lloyd allan, ni bu neb yn byw yma ond y brain a'r llygod, a bellach dechreuodd y cwbl adfeilio yng nghanol y coed a'u hamgylchyna . . "

"Cymerodd y comisiwn, i'r rhan hon o'r goedwig, ddeunaw o ffermydd y gymdogaeth . . . Cofiai Mr. J. B. Evans bob un ohonynt yn llawn ychydig dros ugain mlynedd yn ôl, ac ynddynt deuluoedd lluosog yn fynych, teuluoedd Cymraeg wrth reswm. Heddiw nid oes neb yn byw yn y cartrefi hyn ; gadewir iddynt oll syrthio'n furddunnod. Yn gyfnewid amdanynt cafwyd y ddau fyngalo coch lle y trig y Saeson . . . "

" 'Roedd ardal fach nêt fan hyn," meddai un o'm cymdeithion, "a chofiaf gapel Llidiard Nennog yn llawn dop ar nos Sul." Bach iawn yw'r cynulliad bellach ac y mae Eglwys Rhos-y-corn bron yn wag."

Sonia Mr. Evans wedyn am ddull trahaus stiwardiaid y Comisiwn Coedwigo o droi'r ffermwyr yma allan o'u cartrefi ; dull sy'n waeth, os dim, na dull stiward Galltyrodyn gynt. Stori Williams Dolgader a fydd enghraifft i chwi.

"Gŵr tua thrigain oed yw Mr. Williams, a gafodd ei eni a'i fagu yn Nolgader, lle y bu byw ar hyd ei fywyd. Hoffa ei gartref ac ni fyn ymadael ag ef ond chwenycha'r Comisiwn ei dir ac ers blynyddoedd bu'n ceisio ei gael allan. Cymerodd gant a hanner o'i dir mynydd ar y ddealltwriaeth na chymerai fwy. Yna cymerodd dri chant arall, gan gyfyngu Mr. Williams i le bychan. Wedyn ceisiodd fynd â'r caeau o gwmpas y tŷ. Gwelsom gae, a ddi-garegwyd trwy lafur mawr, ac a fu dan ŷd y llynedd, a blannwyd eleni â choed. Nid oedd gan Mr. Williams hawl i apelio at y Gweinidog . . . nis caniateir lle gofynnir am dir i goedwigo. Eithr cafodd nawdd y Comisiynydd Tir, a addawodd na chai'r Comisiwn fynd, o leiaf, â'r tir o gwmpas y tŷ. Ymdrech y Comisiwn yn awr, felly, yw ei boeni gymaint fel y bydd yn ildio a symud o'r tŷ. Fel rhan o'r broses hon danfonwyd un i aredig y llwybr sy'n mynd o'r tŷ i'r ffordd fawr. Llwybr cyhoeddus yw hwn . . . Er i Mr. Williams brotestio cwblhawyd y gwaith fore'r diwrnod y buom yno. Dros y llwybr hwn, sydd bellach yn dir âr, y mae'n rhaid i ferched Mr. Williams gerdded am hanner milltir i'r heol fawr ar eu ffordd i'r ysgol. Y mae'r ieuengaf ohonynt, Beti, yn saith oed."

Rhandir Mwyn a Dyffryn Tywi yw'r ardaloedd nesaf sydd i brofi'r Troad Allan (46 o ffermydd). Y mae polisi'r Comisiwn yn dweud fod 780,000 acer eto i'w plannu yng Nghymru. (Nid yw hyn yn cyfrif y tir sydd i'w gymryd gan y Swyddfa Ryfel). O ba le daw yr holl aceri yma, pa gartrefi a chwelir ? Y mae'n bosib gweld un o gapeli'r Smotyn Du yng nghanol y coed fel Llidiad Nennog a rhywun yn dweud, "odd cynulleidfa fach nêt yn arfer bod yn——"*Ac y mae Cymru, trwy ei threthi yn talu i'r Llywodraeth am wneud hyn iddi* ! "

Pa bryd y dysg Undodiaid yr oes i roi'r gorau i ymladd stiward Galltyrodyn, sy'n dawel yn ei fedd, a dysgu ymladd yn erbyn gormeswyr ein dyddiau ni . . . gormeswyr sy'n dwyn ein tir, ein cartrefi a'n plant i'w chwalu ar allorau materol.

Korea.

A chan fy mod wedi dechrau benthyca o'r *Faner* cystal parhau gyda'r gwaith da a chrebwyll erthygl "Argoelion yr Armagedon"

gan y Mynach Llwyd. Dywaid y Mynach mai "Ysgol Gân" ar gyfer y Gymanfa Fawr yw'r helynt yng Nghorea, rhywbeth i'n paratoi ar gyfer yr hyn sydd i ddod. Y mae'r ffordd yn un gyfrwys iawn. Dyma'r llwybr i baratoi meddwl y werin ar gyfer rhyfel arall. "(1) Graddol droi ymddiriedaeth ac edmygedd yn amheuaeth ac ansicrwydd" ; (2) Araf bardduo yw'r ail gam". Cael pobl i ddweud, "onibai un genedl neu bobl byddai heddwch ; (3) Enwi'r genedl neu bobl a dangos ei bod yn ymgnawdoliad o bob drwg, "Bonaparte" i un ganrif. "Huns" i oes ddiweddarach. "Reds" i'n dyddiau ni ; (4) Wedi arfogi calonnau'r werin fel yma, y mae'r werin yn barod i'r arfogi mawr a rhoi ei phlant i'w lladd—er mwyn rhyddid.

Nid wyf yn ddigon o wleidydd i ddadansoddi'r sefyllfa bresennol, ond y mae fy nghof yn ddigon hir i gofio fod 200,000 wedi ei lladd ar amrant yn Hiroshima. Dyna paham y cytunaf â'r Dr. Donald Soper pan ddywedodd y byddai'n well ganddo weld Comiwnyddiaeth yn ennill tir na gweld mynd i ryfel eto. Y mae'r Dr. Soper yn credu fod Comiwnyddiaeth yn ddrwg, ond ni chred pawb hynny ac ni chred pawb chwaith fod y bai i gyd ar Rwsia yn yr ymrafael presennol. Y mae papurau a Radio'r wlad yn '*araf bardduo*' ac yn ein rihyrso ar gyfer y Gymanfa. Ni soniant fod Rwsia wedi cynnig bod yr Americanwyr a'r Rwsiaid yn ymadael â Korea yn 1948, bod yr Americanwyr wedi gwrthod mynd a bod y Rwsiaid wedi ymadael. Ni ddywedir fod Syngman Rhee, Prif weinidog presennol De Korea wedi treulio deg mlynedd ar hugain o'i oes yn yr America. Ai dyn America ydyw ynteu dyn De Korea. Dywedir mai Gogledd Korea a ddechreuodd yr ymladd ; cedwir geiriau Mr. Johnson, gweinyddwr Marshall Aid yn Ne Korea yn dawel iawn. Dyma beth ddywedodd bum wythnos cyn dechrau'r badl : " 100,000 officers and men of the South Korean army, equipped with American arms and trained by an American Military Mission, have completed their *preparations and can start a war at any moment.*" Dywedir mae'r Cenhedloedd Unedig sy'n ymladd yn Korea ; ni ddywedir ein bod wedi torri Erthygl 27 o Siarter y Cenhedloedd Unedig wrth wneud hynny. Dywedir fod Comiwnyddiaeth yn erbyn crefydd ; ni sonnir bellach am Act. ii. 45 sy'n sôn am gomiwnyddiaeth yr eglwys fore, "A hwy a werthasant eu meddiannau a'u da, ac a'i rhanasant i bawb, fel yr oedd yr eisiau ar neb." Clywaf rywun yn gwaeddi "*Bolshi*" ac arall yn dweud y byddai'n well i mi dewi. Efallai. Ond ni allaf anghofio mai Yr Ymofynnydd yw enw ein cylchgrawn, a dim ond ymofyn a wneuthum. A oes fai yn hynny ?

Caffaeliad Arbennig i'r 'Ymofynnydd'.

Llwyddodd y Golygydd i gael gan 'Hesgin' i gyhoeddi ei draethawd buddugol yn Eisteddfod Caerffili ar "Daniel Owen,

Heretic" yn Yr Ymofynnydd. Y mae ' Hesgin ' yn un o'r ysgrifenwyr mwyaf bywiog a phryfoclyd a feddwn yng Nghymru heddiw ac fe'n sicrheir fod y traethawd yma yn un o'r pethau gorau a 'sgrifennwyd erioed ganddo. Bydd ei gyhoeddi yn sicr o greu cynnwrf yn y gwersyll crefyddol. Gofalwch eich bod yn cael rhifyn Tachwedd.

Antur Fawr ydyw fy nysgu Cymraeg.

Gan J. Raymond Hodkinson, B.Sc., Mancenion.

Dwy flwyddyn yn ôl yr oeddwn yn lletya wrth fferm yng Nghwmystradllyn yn Llŷn. Cwm unig ac ardderchog ydyw hon. Siaradwyd yr heniaith gan y teulu, gweithiwyd yr hen grefft a pharhauid rhyw rai o'r hen arferion ganddynt. Ond y peth rhyfeddaf oedd eu byw yn y byd o heddiw yn yr ysbryd.

Yr oeddwn i wedi ymweled â Cymru cyn hynny lawer gweithiau gan cerdded ei fynyddoedd a theimlo'r heddwch o'r Gogledd. Yr oeddwn wedi mwynhau y llenoriaeth Saesneg ysgrifennwyd gan Cymru wrth eu gwlad. Ond deuthum yn awr wyneb i wyneb a'r yr Ysbryd Cymraeg.

Am hynny dechreuais i wrando ar y gwersi Cymraeg rhagorol ar y radio drwy dau gaeaf. Cânt hwy gwneud gwaith pwysig dros yr iaith, yn wir. Yr oedd hoff iawn geenyf i gael cyfle am ddeall yr iaith ac y bywyd Cymreig, ac hefyd i helpu ef yn ei ymgais i barhau ac i fawrhau yn ein dydd.

Yn y ugeinfed ganrif tymhestlog, dyma pobl sydd yn byw yn agos i'r pethau o'r meddwl ac enaid. Bywir y bywyd helaeth gan amaethwyr a glowyr a gwragedd. Y mae ganddynt gwaith caled a'r gofal am deulu a chartref. Ond cânt mwynhau cân a barddoniaeth, llenoriaeth ac athroniaeth. Cawn gweld yna y gallu o grefydd hefyd. Gwelir teimlo cyfundeb yn eu llefaru wrth "ein teulu ni", a theimlad cenhelaethol heb cashau. Bydd angen am yr holl pethau hyn ym mhob wlad heddiw !

Ond beth am y newid mawr yn ein oes diwydianol ? Beth am y radio, y telefision, y sinema ? Beth am y dihoeni o grefydd ? Beth am y dihoeni o siarad yr iaith ? Beth am llawer o bobl sydd heb gofal a'r pethau mawr o'i etifeddiaeth ?

Peidiwn a gwangobeithio. Problem yr holl fyd gorllewin ydyw hyn. Fel Undodwyr yr ydym yn meddwl amdanynt pob wythnos. Ac fel Undodwr, ceisio ydwyf i ddysgu yr iaith ac i ddeall yr etifeddiaeth ac yr ysbryd Cymreig. Os fydd Cymru yn gallu agor eu problemau hi, arddangosir ffordd ymlaen (gan y

y problemau) i fyd gorllewin. Hefyd credaf i mai gall Cymru rhoi pethau mwy nac erioed i fywydau a meddyliau ac eneidiau y pobl cyffredin.

Yn y lle cyntaf, y mae eisiau arnom i arddangos i'r pobl a phlant heddiw beth gall yr heniaith ac arferion Cymru gwneud yn eu bywydau hwy. Hefyd yng nghrefydd. Y rheswm am yr Eglwys Undodiaidd ydyw hwn. A beth am yr Eglwys Undodiaidd Cymru? A gawn ni gobeithio ei bod hi yn gallu gwneid y pethau hyn dros dynion a gwragedd a phobl ifanc drwy crefydd a drwy yr ysbryd Cymreig gyda'i gilydd?

Ni welais i ddim erioed De Cymru neu y Capeli Undodiaidd ynddi. Fel aelod yr Urdd Undodwyr Ifanc (Unitarian Young People's League yn Saesneg) bydd hoff iawn gennyf yn enwedig i drefnu y bobl ifanc yn ein capeli Cymraeg. Bydd pleser mawr amdano rhyw dydd.

Ni allaf i ddim ysgrifennu am y pethau mawr hyn fel y fydd hoff gennyf. Y mae rhaid imi ddysgu Cymraeg yn well a threfnu mwyach o'r bywyd Cymraeg. Bydd hi'n antur fawr yr ysbryd i mi yn y flynyddoedd sydd yn dod.

Ac yn y flynyddoedd sydd yn dod, bydd antur fawr yr ysbryd gan yr iaith a bywyd Cymru. Dyma y cofion gorau oddiwrth Sais.

O.N. Y Golygydd.

Yr oeed fy nghalon yn gwaedu wrth ddarllen yr erthygl hwn. Pa sawl Cymro ifanc a hen sy'n anwybyddu treftadaeth ardderchog ein gwlad a'n iaith, a dyma Sais ifanc diwylliedig sydd wedi "dysgu caru ein cenedl ni" yn angerddol. Dyma'r erthygl cyntaf gan rywun o dan ddeugain, ac o'r tu allan i gylch y gweinidogion a gefais i'r Ymofynnydd. A oes gennym rywun yn ein eglwysi, yn wr neu ferch ifanc a ysgrifenna air i'n cylchgrawn i ddiolch i Raymond Hodkinson? Onid oes, gadawaf hanner tudalen o'r Ymofynnydd yn wag hollol yn rhifyn Tachwedd fel y gwelo Raymond faint yw cariad ieuenctid Undodaidd Cymru at eu iaith a'u cylchgrawn.

Atgofion Sion Ifan Sion.

(*Parhad*)

DYDDIAU YSGOL.

Yn fy hen ddyddiau fel hyn nid oes dim byd yn rhoi mwy o o bleser i mi na mynd yn ôl mewn atgof i ddyddiau mebyd. Y maent yn bell iawn erbyn hyn a llawer cwmwl rhyngof â hwynt, ond er hyn i gyd gallaf gau fy llygaid a dychmygu gweld yr hen chwareuon a ddilynem ar oriau rhydd. Gallaf weld y bando

yn tasgu i'r awyr a ninnau'n cwrso ar ei ôl a phwy na ŵyr am y catacanstic (*Ni wyr y Golygydd* ; *a oes rhywun i'w oleuo* !). Pe tawn yn gweld pren ysgawen yn rhywle yn y wlad bell yma gadawn i bopeth o'r naill ochr a dechrau gweithio dryll bwm-bwlets. Rhaid i mi gyfaddef fy mod yn ddiweddar wedi treio fy llaw ar whistl bren a dryll saethu tato. Yn wir daeth yr olaf yn rhyfeddod mawr i'r ŵyr sy yn y tŷ yma. Ond nid chwarae oedd hi i gyd yn yr hen ddyddiau oherwydd bu raid i bawb ohonom ni'r plant wneud ei ran ar y ffarm a chynorthwyo gyda phob math o orchwylion. Yr oeddwn yn treulio dyddiau hirion o fore bach hyd yr hwyr ar y banc yn bugeilio'r defaid a'r gwartheg cyn fy mod yn unarddeg oed. Yn fuan down i adnabod pob pryfyn ac aderyn a llusieuyn a gwnawn hwynt yn ffrindiau i mi a'i galw wrth ei henwau bob yr un. Nid oedd oriaduron i'w cael yn y wlad yr amser hynny, dim ond ambell un gyda'r gwŷr byddigions, a chofiaf yn iawn fel y byddwn yn cyfrif yr amser fel ag i wybod pryd i fynd gartref i swper. Yr oedd hen lyn fach ddiogel ar y banc ac wrth chwarae cychod pluf ar ei glan sylwais ei bod yn llwydo drwyddi dim ond taflu carreg i'w chanol. Sylwais ymhellach mae tua dwy awr a gymerai iddi ddod yn loyw unwaith eto. A dyna oedd fy nghloc wrth fugeilio—taflu carreg i'r dŵr bob dwyawr a chyfri'r cerrig, pump bob dydd.

Ond er i mi orfod gweithio'n galed fel yma ni welais amser mor galed a hanner plant yr ardal yn fy oes. Ni welodd llawer ohonynt ddrws ysgol erioed a hyd ei bedd ni allent dorri enw ar bapur, er i lawer ohonynt addysgu darllen print yn yr Ysgol Sul. Yr oedd Ianto yr 'Hen Fugel Coch' fel yr oeddwn yn ei alw wedi dysgu imi sut oedd cyfrif y defaid yn ei ddull ef. Ni chefais gyfle i holi neb erioed pwy iaith oedd ei rifo ond fe ddwedai'r hen bobol fod llawer o Wyddelod wedi bod yn byw yn y rhannau yna yn yr hen amser. Wel ta beth, dyma fel yr oedd Ianto yn cyfrif hyd at ugain ; ni chofiaf sut oedd yn mynd o hynny ymlaen,

"*in, dor, car, cor, cwi, sich, soch, nich, noch, de, inde, dorde, carde, corde, cwy, sichdi, sochdi, nichdi, nochdi, wichi*".

Yr oeddwn yn gallu eu dweud yn rhaffau slawer dydd ac ni fyddwn byth yn colli cownt ar y praidd.

Ond daeth amser mynd i'r ysgol am dymor ac os oeddwn yn gwybod ffigwrs y Gwyddel a iaith fy mam nid oedd hynny o ddim help yn ysgol Jones y Ffeirad Bach. Y mae'n debyg fod Jones wedi methu a mynd yn ffeirad, wn i ddim pam, ond caniateid iddo i ddarllen llithiau ac yr oedd yn ddigon o sgwlhaig i gadw ysgol ym mharlwr y Gerdinen. Beth bynnag am hynny, nid oedd Cymraeg i fod o fewn i filltir i'w ddosbarth ef. Ac wrth wrando arno yn parablu rhyw gawdel o Saesneg a finnau heb ddeall gair

ar y dechrau teimlais yn aml fel Cora yr hen ast ddefaid a oedd gennyf. Pan oeddwn yn ceisio egluro iddi beth oedd ei thasg edrychai ym myw fy llygaid yn eiddgar ac yna mynd i wneud rhywbeth arall. Oherwydd y diffyg deall yma, cofiaf i dro rhyfedd iawn ddigwydd yn yr ysgol un diwrnod. Yr oeddwn i yn gallu dilyn Saesneg y sgwlyn yn go lew erbyn hyn ond nid oedd pawb cystal, ac un o'r rheiny oedd Dan Ty Whith. Meddai'r sgwlyn un bore wrth Dan, "My boy" meddai'n sarrug, "go and fetch the key from the smith". Cododd Dan ar ei draed ac yn ei falchder o gael mynd allan o'r ysgol, rhedodd ar wyllt at y gof heb aros i fanylu. Ymhen rhyw awr gwelswn ef yn dod nôl drwy ddrws yr ysgol yn chwys babwr a rhywbeth yn tynnu wrth gorden o'r tu ôl iddo. A meddai Dan yn ei Saesneg gorau "Plis Ser, Smith got no ci only gast he got—Come on Bisto !

Druan o Dan, yr oedd wedi cwrso'r hen ast fach drwy'r ardd a'r perthi nes ei chornelo a'i dala o'r diwedd, a hynny am na ddigwyddodd glywed fod key yn golygu allwedd. Ond dyna, sut y gallai wybod, o achos nid oedd y gair key yn ein rhigwm dysgu Saesneg. Ni chofiaf yr hen rigwm i gyd ond dyma beth ohono :

Stone is carreg, *step* is stâr
Cock is ceiliog, *hen* is iar,
Twenty is ugain, *hundred* is cant
River is afon, *brooke* is nant
Ash is onnen, *oak* is derwen,
Holly tree is pren celynen.

Rhwng pethau fel hyn a'r llyfr bach Redi-mêd-isi (Reading made easy, fel y deallais wedyn) deuwn yn Saeson yn y fan. Ond cyn cwpla'r bennod hon rhaid i mi ddweud y stori arall oedd am Dan Ty Whith, a hynny pan oedd yn dechrau'r ysgol gynta ac yn dysgu'r A.B.C. Torrodd y sgwlyn y lythyren H ar y llech o'i flaen a gofyn iddo beth oedd. Edrychodd Dan yn ddwys arni am dro, yna meddai, "Camfa yw hi syr". Cafodd glwbyn hanswm ar ei glust a meddai'r sgwlyn yn ei dymer, "Camfa wir—sut y gall hi fod yn gamfa !" "Ond syr," meddai Dan, "mae ganddi ddau bost a chledren yn groes o un i'r llall.

(*I barhau*).

Swyddogaeth Gwraig mewn Bywyd Cyhoeddus.

Gan y Parch. Lewis Williams, Rhydygwin a Chiliau Aeron.

Fel y gwyddys, hyd yn ddiweddar, ystyrid nad oedd cymhwyster mewn gwraig i wneud un math o wasanaeth cyhoeddus. Ystyrid hi yn israddol i ddyn. Mae yna draddodiad nad oes diben arall i fywyd y fenyw ond priodi, a dwyn plant, a chyflawni gorchwylion y cartref. Mae derbyniad o'r syniad hwn yn digaloni y fenyw i geisio cymhwyso ei hun i unrhyw safle yn yn byd a'i galluoga i ennill ei chynhaliaeth ei hun, a bod yn annibynnol ar ŵr a phlant. Un o ganlyniadau y syniad hwn yw nad yw y ferch yn cael cystal addysg a'r mab. Mae hyn yn ei anghymwyso, ac yn rhoi safle îs iddi yn y byd. Ar ol gadael yr ysgol elfennol mae'r ferch yn aros gartref pan yw ei brawd yn myned am gwrs pellach o efrydiaeth. Mae'r ychydig hyfforddiant ac addysg a dderbyniodd y ferch yn ei gwneud yn anaddas i unrhyw safle uchel. Mae yn aros gartref, ac yn gobeithio y bydd i rywun ei chymeryd yn wraig iddo. Y canlyniad i hyn yw fod y ferch yn fynych yn derbyn y mab a gynigia ei hun gyntaf iddi heb roddi ystyriaeth ddigonol i'w gymeriad a'i arferion a'i weithgarwch. Ac y mae yn digwydd yn aml fod y gŵr yn troi allan yn un gwael. Hyn a gyfrif am hanner yr anghysur sydd yn bod mewn teuluoedd. Pe cydnabyddid fod y ferch yn gydradd a'r mab, a phe dyrchefid hi i'r un safle o annibyniaeth, gwnai y ferch arfer mwy o ystyriaeth, a byddai yn fwy gofalus pwy i gymeryd yn ŵr iddi. Gwnai hyn sicrhau mwy o gysur a gwell amgylchiadau mewn bywyd teuluol.

Nid ydym yn beio merched am briodi. Mae priodas wedi cael ei hordeinio gan Dduw. Yr hyn sydd yn feius yw bod merched yn gorfod dibynnu ar ddyn, ac ystyried mai bod yn wraig ac yn fam yw diben pennaf bywyd. Mae hyn yn cyfyngu ar uchelgais a nod bywyd y fenyw. Mae yn gwneud ei bywyd yn ddistadl Golyga hyn fod yna wastraff mawr ar alluoedd y fenyw. Mae cyfyngu galluoedd ac egnion y fenyw i gylch gwraig a mam a cheidwad tŷ yn wastraff ar y galluoedd gwerthfawrocaf mae Duw wedi greu. Nid yw gwaith menyw fel gwraig a mam a cheidwad tŷ yn rhoddi cyfle iddi i arfer a datblygu ei holl alluoedd. Ar ôl iddi gyflawni y gwaith a berthyn iddi fel gwraig a mam a cheidwad tŷ, mae ynddi alluoedd i gyflawnu gorchwylion eraill.

Y mae yma lu mawr o fenywod heddiw yn sylweddoli hyn. Nid yw gorchwylion teuluol yn dihysbyddu eu holl alluoedd, a gofynant am gyfle i gyflawni gorchwylion eraill.

Mae Duw wedi cynnysgaeddu dyn a menyw â'r un natur, ac a'r un cynheddfau. Os yw benyw yn fod dynol fel ag yw dyn, y mae iddi yr un natur a'r un cynheddfau a dyn. Os felly, y mae iddi yr un hawl a dyn i arfer a datblygu y cyheddfau hynny.

Credwn fod y fenyw wedi profi erbyn heddyw nad yw yn israddol i ddyn mewn dim ond mewn nerth anianyddol. Gwir fod yna rai mathau o waith ag y mae dyn yn fwy cymwys i'w cyflawni na menyw. Ond y mae yna hefyd rai mathau o waith ag y mae'r fenyw yn meddu ar well cymhwysterau i'w gwnued na gwryw.

Mae'r fenyw wedi profi nad yw yn israddol i ddyn mewn gwasanaethau sydd yn gofyn am ysgolheigtod, craffter meddwl, gallu i drefnu pethau fel y bydd amgylchiadau yn gofyn hynny, gallu i gyfrannu addysg, gallu i ddelio a materion gwleidyddol, diwydianol a chymdeithasol, gallu i wasanaethu yng nglŷn â sefydliadau crefyddol a dyngarol, a gallu i wasanaethu yng nglŷn â phob peth sydd a'i duedd i lesoli a dyrchafu dynoliaeth.

Mae pob menyw ddeallus yn sylweddoli hyn heddyw, a hynny yw y rheswm am yr aflonyddwch sydd mor gyffredin yn mhlith benywod y dyddiau presennol. Sylweddolant nad yw gorchwylion cartref yn dihysbyddu eu holl alluoedd a gofynant am hawl i gyflawni gorchwylion eraill.

Gwyddom fod yna wragedd y dyddiau hyn ag y mae gorchwylion cartref yn gofyn am eu holl amser, ond y mae llawer o wragedd yn fwy ffodus, ac a allant hepgor amser at bethau y tuallan i'w cartrefi. O bob peth anheg nid oes dim yn fwy felly na gwrthod i'r wraig gyfleusterau i ddatblygu ei natur i'r gradd uchaf posibl.

Gall y wraig gyflawni gwasanaethau crefyddol. Mae cynnydd mawr wedi cael ei wneud mewn diwinyddiaeth, ond credwn pe byddai y gwahanol enwadau wedi ymgynghori mwy â'r gwragedd ar y pwynt hwn y byddai mwy o gynnydd wedi cael ei wneud. Ni chredwn y gallai un wraig bregethu o bwlpudau a llwyfanau y wlad ddamnedigaeth babanod newydd-anedig. Meddylier am y syniad erchyll sydd gan rai am Dduw—fod Duw yn llawn digllonedd at ddyn, fod Duw yn cashau dyn yn gymaint fel y mae wedi ei dynghedu i gyflwr o lygredd tragwyddol. Ni ellid cael gwraig i ffurfio credo o'r fath yna—gwraig sydd yn fam i ddyn, ac wedi dwyn dyn i'r byd, wedi edrych i'w wyneb pan yr oedd yn faban, ac wedi gweled diniweidrwydd yn cael ei adlewyrchu yn ei wyneb, ac wedi ei garu gymaint y pryd hwnnw fel yr oedd yn foddlon aberthu pob peth er ei fwyn. Pe byddai gwragedd wedi cael eu lle yn yr eglwys fore, ac wedi cael datgan eu barn, amheuwn a fyddai credo Athanasius wedi cael ei llunio.

Beth am wasanaeth Merched y Dê heddiw? Os y darllenwn hanes gweithrediadau' y merched hyn gwelwn fod eu cymdeithas yn foddion i ymladd yn erbyn un o ddrygau mwyaf y dydd—sef yr arferiad o ddiota. Mae yr hyn a gymhellodd Ferche y Dê i ffurfio Cymdeithas or fath yn profi y meddiannir hwy a gwir ysbryd crefyddol. A dyna sydd yn cymhwyso dyn i wasanaethau crefyddol ydyw ysbryd gwir grefyddol. Gall pob gwraig a feddiennir gan ysbryd felly wneud gwasanaeth mawr er sefydlu Teyrnas Dduw ar y ddaear—*I barhau.*

Clawr yr Ymofynnydd.

Golwg ar fyd sydd wedi ei arlunio ar glawr y misolyn ; nid fel ymddengys i'r byd, ond trwy lygaid a meddwl ymofynnydd ieuanc. Canlyniad yw ymofyniad i eisiau gwybod, sef un o adnoddau anfodlonrwydd. Ac yn wyneb craff y bachgen fe gawn fel mewn drych olwg yn ôl ar ansicrwydd ei fywyd. A dyna neges y darlun. Yn y drych yma fe'i gwelwn ym moreu oes yn clywed cwestiwn Duw yn cael ei ail ofyn gan ei gydwybod, "Pa le yr wyt ti ?"

Y bachgen o fethu ateb a geidw i daflu golwg ar ei hunan, ac mewn braw gwêl ef ei hun yn eglurach bob tro ; nid fel cynt yn gawr ar ffordd y byd ond bellach fel megys plentyn ar lwybr bywyd yn canfod croesffyrdd. Gwelodd fawredd y byd am y tro cyntaf, ai fychander i'w wynebu. Sylweddolodd ei analluogrwydd, a theimlodd eisiau help a chwmni i'w ddiogelu a'i arwain drwyddo.

A thros ei gyfyng-gyngor fflachiodd goleuni ; cofiodd am un a fu i'r byd yn unig yn feddyg i rai mewn gorthrymder, ond yn un a fu'n alluog i arwain y byd tuag at uchelnod bywyd yng ngwmni Duw. Trodd gyda'i ffagal-newydd o oleuni i ymofyn mewn gostyngeiddrwydd â'r Cynghorwr. Ar unwaith atebwyd ei gais, dangosodd iddo'r eglwys megis cefndir i'r byd, nid bellach fel adeiliad, ond megis mynegfys a'i phwrpas yn goruwch sefyll pob ffug arwydd.

Ymgeisydd.

O.N.—Danfoned Ymgeisydd ei enw ; ef yw'r unig ymgeisydd ac y mae yn deilwng o'r wobr.—Gol.

STORI.

Rhywbryd tua'r flwyddyn 1840 bu Joseph Severn, ffrind ffyddlon John Keats, a'i gyfaill yn ymweld ag eglwys Sant Ioan Lateran yn Rhufain, pan welsont dorf o addolwyr yn ymgrymu o flaen pictwr ar y mur. Mawr oedd eu syndod wedi sylweddoli mai darlun o'r Brenin George IV ydoedd. Darganfuasant yn ddiweddarach fod y llun a beintiwyd gan Sir Thomas Lawrence yn rhodd oddi wrth y brenin i'r Vatican. Pan ddaeth amser *Spring Cleaning* neu'r dwymyn dwtio yn y Vatican, cyflwynwyd y llun i'r eglwys gyfagos. Yn fuan derbyniodd y bobl ofergoelus y darlun fel un o seintiau cysegredig yr Eglwys wedi ei ganoneiddio gan y Pab. Digrif meddwl fod Siors y Pedwerydd o bawb wedi cael ei addoli yn y ddinas santaidd o dan drwyn y Pab ei hun.—J.T.D.

Cyflwyno Cyfeillion.

IV.

YR EGLWYS FETHODISTAIDD YNG NGHYMRU (WESLEAID).

Gan y Parch. G. R. Tilsley, M.A., Aberdâr.
(*Bardd Cadair Caerffili*).

Yr uchod ydyw'r enw cywir bellach ar y Cyfundeb yr arferid ei alw yn Eglwys *Wesleaidd*. Erys o hyd lawer o gam-ddeall ynghylch yr enw hwn, am fod Enwad y Methodistiaid Calfinaidd (Yr Hen Gorff, neu'r Presbyteriaid) hefyd â hawl i'r enw Methodist, a hwynthwy fel rheol a olygir pan sonnir am Fethodistiaid yng Nghymru, a chyfeirir atom ni o hyd fel Wesleaid. Eithr peidiodd y teitl "Yr Eglwys Wesleaidd" â bod yn swyddogol er 1932. Ac fel hyn y bu. Yng nghwrs rhyw ganrif a hanner o amser ymrannodd y Cyfundeb a gychwynnodd John Wesley, yn dair prif adran, sef y Methodistiaid Welseaidd, y Methodistiaid Cyntefig a'r Methodistiaid Unedig. Ni wyddem ni yng Nghymru nemor ddim am y ddwy garfan olaf, ond yr oeddynt yn niferus yn Lloegr, ac yn 1932, wedi hir gynllunio, penderfynodd y tair adran ymuno drachefn, a mabwysiadu'r enw gwreiddiol a chyffredin "Yr Eglwys Fethodistaidd." Aelodau o'r Eglwys hon yw'r bobl a elwir o hyd ar lafar yn Wesleaid yng Nghymru. Eithr Methodistiaid ydynt, a derbyniant ddiffiniad John Wesley o Fethodist, sef '.un yn byw yn ôl y drefn (method) a osodir i lawr yn y Beibl."

Y Dechreuad.

Yr un deffroad crefyddol, mewn gwirionedd, a roddodd fod i'r holl Fethodistiaid yng Nghymru a Lloegr, yn y 18 C., sef y Diwygiad a arweinid yn bennaf gan John Wesley a George Whitfield yn Lloegr, a chan Howell Harris a Daniel Rowlands yng Nghymru. A siarad yn gyffredinol (heb fyned i mewn i fanylion cymhleth yr hanes) gellir dweud mai'r prif wahaniaeth oedd bod dilynwyr Wesley yn Lloegr wedi derbyn athrawiaeth Arminaidd, a dilynwyr Whitfield a'i Diwygwyr Cymreig wedi mabwysiadu credo Galfinaidd. Ond er gwaethaf y gwahaniaeth athrawiaethol hwn, y peth i'w gofio yw mai yr un math o brofiad a phregethu Efengylaidd a greodd y ddau gyfundeb. Plant yr un gwewyr ysbrydol oeddynt, ac efallai mai'r prif beth sy'n wahaniaeth o hyd rhynddynt a'r enwadau eraill ydyw'r pwyslais a rydd y Methodistiaid ar brofiad personol o waith gras Duw yn y galon.

Ni wnaeth pregethu John Wesley fawr o argraff ar Gymru (er iddo ymweled â'r wlad rhyw 42 o weithiau yn ôl ei ddydd-lyfr) am y rheswm syml na allai bregethu yn Gymraeg. Gwnaeth gytundeb hefyd â Howell Harris, gan adael y gwaith o efengyleiddio Cymru iddo ef. Oherwydd hyn ni sefydlwyd un eglwys Wesleaidd yng Nghymru yn ystod oes John Wesley. Bu ef farw yn 1791. Ond erbyn diwedd y ganrif gwelid bod Methodistiaeth Cymru (a gychwynnwyd gan Harris a Rowlands yn troi yn fwy-fwy yn Uchel-Galfinaidd dan ddylanwad gwŷr fel John Elias o Fôn, ac yn y flwyddyn 1800 penderfynodd y Gynhadledd Wesleaidd yn Lloegr benodi dau weinidog i lafurio yng Nghymru, gan farnu bod yma faes i weithgarwch efengylaidd gan wŷr o argyhoeddiadau Arminaidd. Y Genhadaeth hon yn y Gogledd fu dechreuad yr "Eglwys Fethodistaidd" yng Nghymru, sydd eleni yn dathlu ei Thrydydd Jiwbili.

Yr Hanes Cynnar.

Pregethu Efengylaidd cyson, ennill dilynwyr, a dadlau diwinyddol fu hanes y blynyddoedd cyntaf ar ôl 1800. Safai'r Methodistiaid Calfinaidd dros Athrawiaeth Etholedigaeth Ddiamodol a Pharhad mewn Gras, tra dadleuai'r Wesleaid dros Etholedigaeth Amodol, y Posibilrwydd i Syrthio oddi wrth Ras, a Rhyddid Ewyllys. Termau digon dieithr yw'r rhain erbyn hyn i'r mwyafrif o'n haelodau, ond ar ddechrau'r 19 C. cynhyrfent ddynion i'w gwaelodion, ac y mae teitlau'r llyfrau a phamffledi a gyhoeddid yn dangos mor effro oedd meddwl y cyfnod i'r pethau hyn. Dechreuodd *Yr Eurgrawn* ymddangos yn fisol yn Ionawr 1809, a chyhoeddwyd ef yn ddi-fwlch bob mis hyd yn awr. Diamau mai offeryn dadlau defnyddiol ydoedd yn bennaf ar y cychwyn, ond newidiodd ei dôn ers blynyddoedd, a daeth yn Gylchgrawn parchus, cyfoethog a buddiol. Darfu'r dadleuon yn hir cyn diwedd y ganrif, a daeth yr enwadau yn fwy goddefgar o'i gilydd, ond parhaodd Wesleaeth i gynyddu mewn grym a dylanwad ; ac yr oedd ei haelodaeth yn 1900 dros 20,000 yng Nghymru. Un Dalaith ydoedd Cymru ar y dechrau, ond fel yr ymledai'r Achos, rhannwyd hi yn ddwy, ac yna yn dair, sef Talaith y De a dwy Dalaith y Gogledd, ac felly yr erys yn awr.

Trefniadaeth.

Yn ôl trefn John Wesley ei hun, rhennir pob Talaith (District. yn Gylchdeithiau (Circuits), a chynnwys pob Cylchdaith nifer (o 2 i 20) o Eglwysi Unigol. Penodi'r gweinidog yn Arolygwr ar bob Cylchdaith, ac un neu ragor o Weinidogion i'w gynorthwyo (yn ôl nifer yr Eglwysi). Hyd 1899 rheolid pob Talaith yn uniongyrchol gan y Gynhadledd (Conference) Seisnig, ond yn y flwyddyn honno sefydlwyd y Gymanfa Gymreig i arolygu gwaith y Tair

Talaith Gymreig, ac i ordeinio gweinidogion i'r gwaith yng Nghymru. Gwelir, felly, bod trefnyddiaeth yr Eglwys Fethodistaidd yn un ganolog a syml. Ym mhob Eglwys penodir blaenoriaid i ofalu am restr o aelodau ; y mae'r blaenor yn atebol i gyfarfod Blaenoriaid ei Eglwys ; y mae'r Eglwys unigol yn atebol i Gyfarfod Chwarter y Gylchdaith ; y mae'r Gylchdaith yn atebol i Synod y Dalaith ; y mae'r Dalaith yn atebol i'r Gymanfa Gymreig, a'r Gymanfa yn atebol i'r Gynhadledd Brydeinig, a gyferfydd am bythefnos bob blwyddyn, a gynnwys gynrychiolwyr gweinidogaethol a lleyg o bob Talaith ac a weinydda holl reolau'r Cyfundeb.

Nodweddion.

Ni ellir mewn braslun fel hwn roddi fawr o syniad i ŵr o'r tu allan beth yw ansawdd bywyd yr Eglwys Fethodistaidd, ond wele rai o'r neilltuolion amlycaf yn ei horganyddiaeth.

(1) Trefnusrwydd ei darpariaethau. Ceisiwyd dangos eisoes fel y mae maes a chyfrifoldeb pob aelod a swyddog a chyfarfod yn gwbl glir a phendant, a'r awdurdod yn ganolog, ac eto yn ddemocratig trwy gynrychiolaeth.

(2) Gweinidogaeth Symudol. John Wesley ei hun a ddechreuodd y drefn lle y mae gweinidog yn newid ei gylchdaith yn rheolaidd. Yr hen arfer oedd bob tair blynedd. ("A blina bob tair blynedd,") meddai'r hen englyn i Weinidog Wesle). Yr arfer cyffredin erbyn hyn yw symud bob pum mlynedd.

(3) Y defnydd helaeth o bregethwyr cynorthwyol. Llenwir pump o bob saith o bulpudau'r Cyfundeb bob Sul gan bregethwyr lleyg, a threfnir moddion effeithiol i'w haddysgu a'u cymhwyso i'r gwaith.

Nid yw'r Eglwys Fethodistaidd yn gaeth wrth unrhyw Gredo ffurfiol. Fel canllaw yn unig derbynnir Nodiadau John Wesley ar y Testament Newydd, a'i Bedair Pregeth a Deugain Safonol, ond ysbryd y rhain ac nid y llythyren sydd yn rheol ffydd a buchedd i'r aelodau. Gellir disgrifio'r Cyfundeb fel Eglwys sydd yn Efengylaidd ei hysbryd, Arminaidd ei chredo, a Chyfundrefnol ei horganyddiaeth.

Cyfraniad i Fywyd Cymru.

Pa gyfraniad, ynteu, a wnaeth yr Eglwys hon i fywyd Cymru yn ystod y ganrif a hanner y bu yma ? Anodd bod yn bendant wrth ateb cwestiwn fel hwn lle y gall fod amrywiaeth barn, ond mentraf ar rai pethau na ellir yn hawdd eu gwrthwynebu.

(1) Trwy ei phwyslais cyson ar Arminiaeth Efengylaidd hi a ddenodd yr enwadau eraill i ymwrthod â daliadau Uchel-Galfinaidd. Bu'n gyfrwng i "Armineiddio" meddwl Cymru.

(2) Trwy ei horganyddiaeth ardderchog, dysgodd drefn i'r enwadau eraill, a bellach gwelir y lleill yn efelychu ei threfn i lawer cyfeiriad.

(3) Trwy agor y drws i bregethwyr lleyg, rhoddodd gyfle ac awydd i'r aelodau cyffredin, a dangosodd y ffordd i enwadau eraill yn hyn o beth.

(4) Rhoddodd bregethwyr mawr i Gymru,—gwŷr fel Thomas Aubrey, John Bryan, John Evans, Eglwysbach, Hugh Hughes, heb anghofio rhai sydd eto'n fyw fel D. Tecwyn Evans, E. Tegla Davies a J. Roger Jones.

(5) Rhoes ei chyfran o lenorion a beirdd i'r genedl, gwŷr fel y Dr. William Davies, Gwilym Lleyn, Cawrdaf, Cadfan, Glanystwyth, Evan Isaac, a chyfoethogwyd diwylliant y wlad trwy ei chylchgronau *Yr Eurgrawn* (y Cylchgrawn hynaf yn yr iaith), a'r *Winllan*, Cylchgrawn i blant, a gychwynnwyd yn 1848, ac a ymddangosodd yn ddi-fwlch bob mis hyd yn awr.

Yn yr adran Gymraeg yn unig o'r Eglwys Fethodistaidd y mae heddiw dros 20,000 o aelodau, 51 o Gylchdeithiau, 362 o Eglwysi, 93 o Weinidogion Rheolaidd, 32 o Uwchrifiaid (sef gweinidogion wedi ymddeol), 302 o bregethwyr cynorthwyol ; ac y mae llawer mwy na hyn eto yn y gwaith Seisnig yng Nghymru. Y mae rhannau o Gymru lle na wreiddiodd yr enwad o gwbl, a rhannau eraill sydd bron yn gwbl "Wesleaidd." Bu adeg pan edrychid arnom fel estroniaid o Loegr yn tresmasu yng Nghymru, ond yr ydym wedi hen ymgartrefu yn y wlad, ac er mai myni yw'r enwad ieuangaf yng Nghymru (150 oed eleni , eto, nid cywilyddus gan yr enwadau hŷn erbyn hyn yw ein galw ni yn frodyr.

Terfynaf trwy ddiolch i Olygydd mwyn Yr Ymofynnydd, sydd yn gymydog a chyfaill imi, am wahoddiad i sôn wrth ddarllenwyr Undodaidd am y Cyfundeb y perthynaf iddo.

Maes Llafur yr Ysgolion Sul 1951.

Safon I. (Dan 9 oed) Ar lafar. Pennod 2 o'r Llawlyfr "*Hanes Iesu i Blant*" gan y Parch. T. Oswald Williams, M.A.

Gwaith Dysgu ar Gôf—Marc x. 13—16 (pedair adnod).

Safon II. (O 9 i 12 oed). Ar lafar neu ysgrifenedig "*Hanes Iesu i Blant*" gan y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Penodau 1 a 2.

Gwaith Dysgu ar Gôf—Y Deg Gorchymyn (O'r llawlyfr).

Safon III (O 12 oed i fynny). Ysgrifenedig "*Holwyddoreg ar Grefydd*" gan y Parch. Islan Jones, M.A.,—Duw, Addoliad, Y Da a'r Drwg, Pechod, tudalennau 1—5.

Gwaith Dysgu ar Gôf—Salm 46.

Cynhelir yr Arholiad ar yr ail Ddydd Sadwrn ym mis Mai, sef Mai 12, 1951. Gofynnir i bob Ysgol Sul anfon nifer yr ymgeiswyr (Llafar neu Ysgrifenedig) i Ysgrifennydd Cymdeithas yr Ysgolion Sul erbyn Ebrill 21, 1951. Gellir cael "*Hanes Iesu i Blnat*" oddiwrth y Parch. T. Oswald Williams a "*Holwyddoreg ar Grefydd*" oddiwrth yr Ysgrifennydd—S. A. Evans (*Ysgrifennydd*), Dedwyddfa, New Road, Llandyssul.

Priodasau.

Awst 26, yn Eglwys Llanwenog, Mr. WILLIAM RICHARD DAVIES, Brynclettwr, Llandyssul a Miss ELEANOR MARY EVANS, Tangraigfach, Cwrtnewydd. Yn absenoldeb ficer y lle gwasanaethwyd gan y Parch. E. Jenkins, Ficer Llanybyther. Pob bendith arnynt.

Medi 16, yng Nghapel-y-Fadfa, Mr. DAVID ALFRED SAUNDERS, Lance Corporal, Grenadier Guards a Miss HETTIE MARY, ail ferch Mr. a Mrs. William Ansell, Bryneryr, Talgarreg. Gwasanaethwyd gan Y Parchn. E. O. Jenkins, W. M. Jenkins, a'r Cofrestrydd ac wrth yr organ gan Miss Thomas, Greengrove.

Marwgof.

Awst 22 bu farw MARY, gweddw'r diweddar Thomas Jones, yn Rhydiau, Drefach. Yr oedd yn 74 oed. Aelod ydoedd o Gapel Drefach (A) ond hanoedd o deulu Undodaidd.

Bu'r angladd y dydd Gwener canlynol (y 25ain) yng Nghapelygroes. Gwasanaethwyd gan ei gweinidog y Parch. Idris Evans, gyda chynhorthwy y Parchn. D. Morris Jones (A), E. O. Jenkins (U), D. Evans, ficer Llanfihangel-ar-arth a J. Islan Jones (U).

Gadawodd mewn galar o'i cholli ddau fab, un ferch a llawer o berthnasau.

Newyddion yr Enwad.

YMOFYNNYDD MEDI.—Yr oedd yn flin gan y Golygydd a'r Swyddfa argraffu fod Ymofynnydd Medi yn ddiweddar yn ymddangos. Daeth galwadau arbennig ar yr argraffwyr a hynny pan oedd mwy nac un cysodwr ar ei wyliau.

CAPEL-Y-GROES a CHRIBYN.—Llawenydd yw clywed fod trefniadau bron a'u cwblhau i gael y Parch. Noel James, B.A. i ofalu am yr Eglwysi yma am flwyddyn o leiaf. Pob bendith ar ei waith.

PWYLLGOR YR YSGOLION SUL.—Dydd Sadwrn, Medi 9, 1950 ym Mrondeifi cyfarfu pwyllgor o gynrychiolwyr Ysgolion Sul Ceredigion o dan lywyddiaeth y Parch. Islan Jones, M.A. Darllenwyd a chadarnhawyd y cofnodion, a chafwyd amcangyfrif gan y trysorydd o'r sefyllfa ariannol. Diolchwyd i'r Arholwyr a gofynnwyd iddynt arholi eto yn 1951. Trefnwyd cynnal y pwyllgor nesaf yn Llwynrhydowen. Gwnaeth rhai o'r aelodau awgrymiadau gwerthfawr a dderbyniwyd yn llawen gan y Pwyllgor. Awgymodd yr Henadur Meredith Williams ein bod yn prynu "cabinet" i ddal y gwers lyfrau a llyfrau eraill a'u cadw yn ddiogel. Awgrymodd Mr. Lewis, Ysgolfeistr Cwrtnewydd ein bod yn mabwysiadu "Maes Llafur Addysg Grefyddol yn Ysgolion Cymru." Caiff y mater sylw yn y Pwyllgor nesaf. Taer erfynnir ar yr athrawon i ddechrau ar y gwaith ar unwaith gan geisio gwneud pob gwers mor ddiddorol ag sydd bosibl. Dylid manteisio ar bob cyfle a phob cyfrwng i ddatblygu hunan fynegiant y plant. Awgrymwyd ein bod yn gwneud apêl am gopïau o "Holwyddoreg ar Hanes Iesu Grist" gan y Parch. D. Evans, Capel-y-groes a Chribyn. Felly os oes copïau yn weddill yn rhywle bydd y pwyllgor yn ddiolchgar iawn amdanynt. Apeliwn at bawb i'n cynorthwyo yn y cyfeiriad hwn. Hyderaf y cyfiawnheir ein penderfyniad i symud ymlaen o ddifrif gyda'r gwaith da, gan y croeso a estynnir i'r Maes Llafur hwn a llwyddiant yr Arholiad nesaf. Cydnabydddir yn ddiolchgar gydweithrediad yr arholwyr a'r cynrychiolwyr, i'r athrawon am eu llafur, ac i'r gweinidogion am eu diddordeb a'u cefnogaeth selog.

S. A. Evans.

CYMDEITHAS Y BOBL IFAINC.—Ffurfiwyd cangen o Gymdeithas y Bobl Ifainc Undodaidd yn Graig, Llandyssul. Llywydd—Deric Davies, Ysgrifennydd—Olwen Thomas, Rhydygalfe, Trysorydd—Elano Davies.

HIGHLAND PLACE.—Unwaith y flwyddyn cynhelir cwrdd arbennig yma a elwir yn "All Present Service" pryd y gofynnir i bob aelod, cyfaill a phlentyn a berthyn i'r eglwys fod yn bresennol mewn un cyfarfod. Eleni cynhaliwyd y gwasanaeth hwn ar Sul, Medi 17 a dewisodd Cor Merched Penygarth roddi ei gwasanaeth i ni ar yr achlysur, ac fe gafwyd oedfa lawn, hwylus a buddiol. Y Sul cyntaf yn Hydref daeth y Parch. T. Oswald Williams, M.A. atom i gynnal ein Gwasanaethau Diolchgarwch. Cafwyd cynulleidfaoedd da a phregethu grymus, a hir gofir am oedfa arbennig y plant a'r bobl ifaic.

DRAMAU I'R BOBL IFAINC.—Cwelir hysbyseb ar gefn Yr Ymofynnydd yn cyflwyno Cyfres Cynan o ddramau un act. Y mae pob un o'r dramâu yma wedi dod drwy law brofiadol Cynan a gellir sicrhau y bydd mynd ar y ar y pump. Y mae'r dewis yn am rywiol.

Dr. BARNARDO.—Ymddiswyddodd Mr. D. Lloyd Lewis, prifathro Ysgol Cwrtnewydd o fod yn gasglydd gwirfoddol i gartrefi'r Dr. Barnardo. Yn y llythyr yn cydnabod ond yn gresynu'r ymddiswyddiad dywedir "*Far be it from us to show favour or disfavour to any religious denominations, but we are Trinitarians and we therefore felt we could not comply with our public obligations if we placed one of our children with a Unitarian*". Y mae cloch y gwahanglwyf am wddf yr Undodwr o hyd a smotyn du ar ei gymeriad. Y mae'r frawddeg uchod fel ambell i hen gorgi bach a'i gwt yn siglo a'i ben yn cnoi ond mai pen hon sy'n siglo a'i chwt yn cnoi !

GEMAU'R PULPUD.—Darlledir detholiad chwarter awr o Emau'r Pulpud Undodaidd brynhawn Sul, Hydref 15. Detholiad o bregethu'r ganrif o'r blaen ydyw ac fe geir y manylion yn y Radio Times.

CAMP LLANMADOG.—Rhodd ydyw Camp Llanmadog i fobl ieuainc i gynnal cynadleddau a threulio gwyliau ar lan y môr. Rhywbeth da dyfodd allan o ddrygioni rhyfel, a mudiad bellach sydd wedi ei gysegru i'r dibenion gore. Er nad yw ond ifanc y mae iddo yn barod ei hanes, a'i hanes yn dywedyd am fenter ffydd. Yn nyddiau rhyfel gwelodd rhywrai bosibiliadau ardderchog y Bobl ifainc, ac ymhellach drwy garedigrwydd gŵr a gwraig, y mae Camp Llanmadog wedi tyfu yn fudiad gwlad enwog. Hen ffermdy oedd ar y dechrau. Fe'i rhoddwyd yn anrheg gan Mr. a Mrs. Burr, "St. Madoc" (aelodau yn ein Capel yn Abertawe), i fobl Abertawe yn adeg y Blitz. Heddiw y mae ei ddrws yn agored i bawb. Saif ar lecyn o dir uwchlaw'r môr, a thraeth melyn sidan o dano. O'i amgylch y mae bryniau Gŵyr a'u hen hanes, ac yn unol a thraddodiad fe saif y camp heddiw i hyrwyddo dyfodiad i "wlad Arthur" y pethau hynny sy'n dyrchafu cenedl a gwlad. Er i ni, fel Undodiaid, fethu trefnu cynhadledd am y tro, a chael gan y gwahanol ysgolion Sul gymryd diddordeb (Beth sydd o le, ni wn !) mentrodd rhai ohonom gymryd y camp am wythnos o wyliau. O edrych yn ôl medrwn ddweud i'r cyfan fod yn llwyddiant eithriadol. Dim ond rhyw 20 ohonom o Gefn Coed oedd yno y diwrnodau cyntaf—a dau neu dri o Abertawe. Ond ar ddydd Llun ychwanegwyd at y cwmni gan nifer o fobl ieuainc o Hwlffordd yng ngofal gweinidog ifanc—y Parch. Byron Evans. Trwy weddill yr wythnos gwelwyd Undodiaid ac Annibynwyr mewn perffaith gymdeithas a'u gilydd. Y mae Môr yn rhy fawr i beth mor fach a chulni enwadaeth ; y mae Mynydd yn ei gyfrinach yn mynnu lledaenu ysbryd cyfeillgarwch, a Natur yn rhoddi i ddyn syniad am fawredd y Creawdwr sydd uwchlaw pob pwysigrwydd cyffes ffydd, a chwmni diddan cyfeillion newydd o'r un diddordebau, yn uno pobl mewn un Gymdeithas Grefyddol. Un o'r pethau harddaf berthyna i Gamp Llanmadog yw ei fan addoli ; hen sgubor fferm wedi ei throi yn gysegr y weddi, a phreseb yn allor. Nid byth yr anghofir y gwasanaethau a gynhaliwyd bob bore ar ôl brecwasta, a phob cwmni yn ei dro yn cymery gofald o'r gwasanaeth. Ni chredaf i yn y cyhoeddiad bod ein pobl ifainc yn ddigrefydd ! Ar y "Notis Board" y tu allan i'r Capel ceir y geiriau hyn : "Capel y Camp (Cydenwadol) Here let no Man be a stranger." Gwendid ein byd

ni heddiw bod ynddo gymaint "estroniaid"—pobl yn estron i'w gilydd, ac i bethau sy'n dyrchafu dyn ; yr elfen gyfeillgar a'r ysbryd brawdol yn eisiau. Ond yn Llanmadog fe'i ceir hyd yr ymylon—hyd at droed y Graig, a chopa'r Bryn, a min y Traeth. Fe'i ceir yn ei ystafelloedd, ac yn ysbryd y Cwmni,—yr ysbryd hwnnw sydd ar y byd heddiw ei eisiau. Diolch i garedigion o weledigaeth am Gamp Llanmadog. Ac y mae y drws o hyd led pen yn agored i garwyr y ffydd. Beth am dani ynte Undodiaid ieuainc y flwyddyn nesaf ? —J.M.T.

Y Cwpwrth Llyfrau.

Llyfrau Darllen i Ysgolion Cymru, ar Gymeriadau Beiblaidd.

'Moses,' gan R. Bryn Williams ; 'Y Proffwyd Eseia,' gan R. H. Hughes ac 'Elias,' gan Gwilym E. Thomas. Y mae i bob un 50 tud. ac y maent wedi eu rhwymo'n ddestlus ; pris deunaw ; cyhoeddir ar ran Cymdeithas Addysg Grefyddol yng Nghymru gan Wasg y Brython, Lerpwl. Bwriedir y llyfrau yma ar gyfer y plant yn yr Ysgolion Gramadeg a Modern a dyma'r tri cyntaf o'r gyfres. Gellir eu cymeradwyo'n galonnog i'r athro Ysgol Sul neu'r neb a fynno wybodaeth ddosbarthus, rwydd am gymeriadau'r Beibl. Y mae crefft arbennig ar lyfr Bryn Williams ac fe gyflwynodd bwnc sy'n sych i blentyn mewn modd deniadol.

Storïau'r Tir Du, gan D. J. Williams, td. 114 ; pris 5 swllt. Gwasg Aberystwyth.

O ran diwyg allanol dyma un o'r llyfrau harddaf a fu yn fy nwylo ers blynyddoedd a gall argraffwyr Gwasg Gomer ymfalchïo yn eu gwaith. Mae'r llythyren ddu, blaen ar draws y cefndir gwyn yn effeithiol dros ben a'r gyfrol i gyd yn gâs cadw teilwng i glasur—canys dyna beth ydyw'r llyfr hwn. Ers pan gyhoeddwyd *Hen Wynebau* bu'r awdur yn rheng flaenaf ein llenorion eithr dengys y gyfrol yma yn ddiamau mai ef yw meistr pennaf y stori fer yng Nghymru bellach ; ef yw'r unig storïwr sy'n tyfu bob tro hyd y gwelaf i. Ceir yma bump o storïau byr-go-hir, a phob un ohonynt yn cynnwys yr hen ysmaldod ynghyd â rhywbeth newydd, sef neges arbennig i'r oes. A dyma'r gamp, rhoi neges heb buteinio'r grefft—y mae'r peth fel dyn yn reidio beic heb gydio yn yr handls ac eto'i gyd yn concro tro a thraffic. Mewn un man yn unig y mentrodd ormod 'rwy'n meddwl a mynd braidd yn Ddickensaidd wrth alw'r pregethwr sy'n pleso pawb yn Parch. Ystwyth Jones. Sylwais ar fân wallau argraffu : td. 72, ll. 24, 'mbartners' yn lle 'mhartners' (?) ; td. 73, ll. 16, 'Jonrs' yn lle 'Jones' ; a th. 76, ll. 16, 'berfformaus' yn lle 'berfformans.' Mae stori'r "Capten a'r Genhadaeth Dramor" yn wir ddigri—dylid cael rhagor o Hen Wynebau'r Môr a chylch Abergwaun.

Y Storc.

(Cyfranwyd gan J.T.D.).

Wyddoch chwi am yr aderyn a elwir yn Storc neu Ciconia, "Ie, y Ciconia yn yr awyr a edwyn ei dymhorau ; y durtyr hefyd; a'r Aran (Crane) a'r wennol ; a gadwant amser eu dyfodiad."

Y gair Hebraeg am y Storc oedd Chasidah, hynny yw Tosturi, a hynny am ei bod yn hynod hoff o'u plant, a'r plant hefyd yn ffyddlon i'w rhieni. Tyfant i fyny i weini ar eu rhieni ac i'w amddiffyn mewn perygl. Pan fo plantach yn gofyn y cwestiwn o ba le y daw'r babi yn Isalmaen (Holland), dywedir wrthynt mae'r Storc a ddaeth ag ef yno.

Yr oedd yna gred hynod ar un pryd. Credwyd mae Mahometan oedd y Storc, oherwydd iddo osgoi tai Cristnogion ac adeiladu ei nyth ar ben tai Mahometaniaid. Y rheswm oedd fod pobl Islam yn dal y syniad mae aderyn cysegredig ydyw'r Ciconia a felly rhoddent bob cynorthwy i'r aderyn nytho yn eu tai tra byddai'r Cristnogion yn barod i'w saethu a'i fwyta. Gwyddai'r aderyn hyn yn iawn. Felly rhywbeth i'w ochelyd oedd tai y Cristnogion, ei gelyn a bydd yn dewis tai ei ffrindiau. Ac y mae'n hynod fod y storc yn ffoi o ba le bynnag y mae'r Mahometaniaid wedi mudo ohono. Peth diddorol yw gweld yr adar yn dysgu eu plant i hedfan, a dywedir eu bod yn cadw dyddiad eu mudiad o Ewrop i Affrica fel y cloc—Awst 28ain. Os na fydd y plant wedi tyfu digon erbyn hynny, cludir hwy ar gefn y tad a'r fam. Y mae llawer hanes yn dweud am y fam-aderyn yn cadw ei lle ar y to er mwyn amddiffyn ei hepil hyd angau pan yw'r tŷ yn llosgi tani. Digon tebyg mai'r storc a grybwyllir yn yr adnod (Matt. 23.37) "Pa sawl gwaith y mynnaswn gasglu dy blant ynghyd megis y casgl iar ei chywion dan ei haden".

Gohebiaeth.

[*Croesewir llythyrau byr, tua 200 gair ar bynciau'r dydd*].

Annwyl Olygydd,—

Beth yw gwerth crefydd i ni? Dro ar ôl tro wrth ddarllen adroddiadau eglwysi gwelaf mor fach yw ein parodrwydd i gyfrannu. Gwelaf enwau ffermwyr cefnog, masnachwyr llwyddiannus a gweithwyr sy'n ennill yn dda a dim mwy na phris paced ugain o sigarets gyferbyn â hwynt. Nid oes ryfedd fod J. Luther Thomas wedi ysgrifennu yn yr *Eurgrawn* : "*Darllener Adroddiadau'r Eglwysi a chronicl y Cymdeithasau Cenhadol . . . Y mae'r hanner*

coranau yn dilyn ei gilydd yn ffrwd fain o dudalen i dudalen. Gyferbyn â'r gŵr pymtheg punt yr wythnos—Hanner Coron. Wrth enw'r eneth mewn swydd enill-fawr—Hanner Coron. Hanner Coron eleni, Hanner Coron llynedd, Hanner Coron ddeng mlynedd yn ôl . . . Ni chadwodd yr un Iddew at ddeddfau hanner sicl y Deml mor gaeth ag ambell Gymro at "yr un faint â llynedd. . . . Nid hwyrach na roddes Duw fwy na llynedd ar eu bord ac yn eu pwrs ond 'yr un faint a llynedd' fydd y gyfran . . ."

Pa ryfedd fod yr eglwysi mor llwyd eu gwedd a'r pregethwyr mor llwyd a thenau. Terfynaf trwy ddyfynu englyn di-enw a welais yn *Cymru* flynydd-oedd maith yn ôl dan y teitl—

BEDDARGRAFF Y PARCH. J. UNDERPAID LEWIS.

Hunanaberth wynebodd—a rhan brin
Ei braidd a dderbyniodd ;
Pob dyled—pawb a dalodd,
Drwy hap fawr—Duw ŵyr pa fodd."

—HEN LAW.

CYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEUDIR CYMRU

(SEFYDLWYD 1802)

Cynhelir

Cyrddau Chwarter y Gymdeithas

yng Nghapel-y-Groes, Ceredigion

Dyddiau Mawrth a Mercher, Hydref 17 a 18, 1950

NOS FAWRTH am 6.30 —Pregethir gan y Parch. E. O. JENKINS a'r Prifathro J. D. JONES, B.A., B.D.

DYDD MERCHER, am 11 o'r gloch—PWYLLGOR Y GYMDEITHAS.

PRYNHAWN MERCHER am 2—Pregethir gan Y Parchn. R. Islwyn Pritchard, B.A. a Marles Thomas, M.A.

NOS FERCHER am 6.30—Pregethir gan Y Parchn. D. Jacob Davies, B.A. a T. Oswald Williams, M.A.

Os am lety danfoner at—
Mrs. JENKINS, Blaenwaun-ganol, Llanwnen, Llanbedr.

J. D. Lewis a'i Feibion Cyf, Gwasg Gomer Llandysul.

Defnyddiau Da
Crefftwaith Da

Yr ydym heddiw yn cadw ein henw da am ddeunydd a chrefftwaith a adeiladwyd gennym yn ystod yr 90 mlynedd diwethaf. Yn y cyfnod hwn sefydlwyd 35 o ganghennau drwy Gymru a Gorllewin Lloegr i wasanaethu gwŷr a'u meibion.



HODGES AND SONS (CLOTHIERS) LTD.

WEDI EU TEILWRIO YNG NGHYMRU

The Llandyssul Agricultural Society Ltd.

LLANDYSSUL

Visit us before you buy your—

MANURES, FEEDING STUFFS, LIME, GRAIN, CORN, CONDIMENTS, SEEDS, HARDWARE, DRAPERY, GROCERY, CLOTHING, BOOTS AND SHOES, FURNITURE, ETC.

Deal at your own Society and thus save for yourself all middle profits

---

"Esplanade Cafe"

Proprietor—T. P. GRIFFITHS.

HIGH CLASS CONFECTIONER AND CATERER

MORNING COFFEE, LUNCHEONS AND HIGH TEAS

SMALL PARTIES CATERED FOR

"*Cefnogwch Undodwr*"

SEA FRONT : - : BARRY ISLAND

— COMMERCIAL AND GENERAL PRINTERS —

Within easy access to you if you reside in Glamorgan

Read the—

ABERDARE LEADER

(the paper which goes into every home in the Valley)

All enquiries—

PUGH & ROWLANDS, LTD.

ABERDARE LEADER OFFICES

ABERDARE

J. EDRYD STEPHENS & SONS

ELECTRICAL AND RADIO ENGINEERS

2A, BLUE STREET, CARMARTHEN

25 years experience in all classes of Electrical Undertakings

Recently installed in places of worship :—

FLUORESCENT AND ORDINARY LIGHTING

TUBULAR HEATERS

ORGAN BLOWERS

LIGHTING BY ELECTRIC MAINS AND BY PRIVATE PLANTS

Expert on FARM LIGHTING PLANTS

ENGINES, DYNAMOS, SWITCHBOARDS, MOTORS, COOKERS, WASHING MACHINES, REFRIGERATORS, ETC. ALWAYS IN STOCK

BEST MAKERS RADIO RECEIVERS ALWAYS IN STOCK

MODERN EQUIPMENT FOR RADIO REPAIRS

We employ an expert for every Job

FREE ADVICE AND ESTIMATES

The Shop for Value and Selection. Est. 1875.

E. R. DAVIES (L.S.O. Lond.) & SONS

WATCHMAKERS

. . JEWELLERS . .

SILVERSMITHS

Private Room and Special Attention given to Engagement and Wedding Parties.

LARGE SELECTIONS OF CUPS AND MEDALS.

1, Wind Street

Llandyssul . . . . Cards.